GOOD PRACTICE AWARDS | GWOBRAU ARFER DA 2024

TPAS CYMRU — You matter | Ti'n cyfri

# Manylion llawn a meini prawf ar gyfer y gwobrau canlynol

## 1. Llais y Tenant

Bydd y wobr hon yn cael ei rhoi i **landlord cymdeithasol** a all ddangos bod eu tenantiaid/preswylwyr yn cael eu cefnogi'n weithredol i gymryd rhan, ac yn cael eu grymuso i ddylanwadu ar wasanaethau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Rydyn ni eisiau gwybod sut mae'r landlord yn gweithio i sicrhau bod llais y tenant yn cael ei glywed, y gwrandewir arno, ac yn cael ei weithredu ar bob lefel o'r sefydliad. Rydym hefyd am glywed beth sydd gennych ar waith i alluogi hynny i ddigwydd.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Sut mae'r sefydliad yn gweithio i sicrhau bod llais y tenant yn cael ei glywed, y gwrandewir arno, ac y gweithredir arno ar bob lefel o'r sefydliad.
b) Sut mae tenantiaid yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan. Sut ydych chi'n codi ymwybyddiaeth ac yn cael tenantiaid i ymgysylltu ac i gymryd rhan?
c) Sut mae'r sefydliad yn gweithio i sicrhau bod yr ystod o leisiau tenantiaid yn cael eu clywed

## 2. NEWYDD Cynnwys Tenantiaid mewn mentrau / prosiectau Amgylcheddol (gan gynnwys prosiectau Sero Net / ORP)

Mae'r wobr newydd hon yn cydnabod **landlord, sefydliad neu grŵp cymunedol** sydd wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â Thenantiaid/Preswylwyr mewn mentrau sydd o fudd i'r amgylchedd, yn fyd-eang neu'n lleol!

Rydym eisiau cydnabod y rhai sy'n cefnogi tenantiaid i gymryd rhan mewn mentrau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd ac elwa arnynt. Gallai'r rhain fod yn: brosiectau sy'n canolbwyntio ar Sero Net, e.e. cynnwys tenantiaid wrth ddefnyddio gwres ynni isel; lleihau olion traed carbon; mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd; prosiectau bioamrywiaeth/natur neu fyw'n gynaliadwy.

Felly, dywedwch wrthym beth rydych wedi bod yn ei wneud a beth y gallai eraill ei ddysgu ohono.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Amlinellwch sut rydych wedi ymgysylltu â thenantiaid/preswylwyr a darparu cymorth i fod mor gynhwysol â phosibl.
b) Amlinellwch effaith yr ymgysylltu hyd yma a beth allai'r effaith fod yn y dyfodol.
c) Cynhwyswch rai tystebau/sylwadau adborth gan y rhai yr ydych wedi ymgysylltu â nhw.

## 3. Cynnwys Tenantiaid wrth Lunio neu Adolygu Gwasanaethau

Rhoddir y wobr hon i **landlord cymdeithasol a/neu grŵp tenantiaid** sydd wedi cynnwys tenantiaid/preswylwyr yn llwyddiannus wrth lunio neu adolygu gwasanaethau e.e. dylunio gwasanaethau newydd, nodi gwelliannau gwasanaeth, craffu neu brofi gwasanaethau. Gallai hyn ganolbwyntio ar un neu fwy o wasanaethau y mae tenantiaid yn eu derbyn. Esiamplau fel gwasanaethau atgyweirio, gwasnaethau ar-lein, cwynion, adolygu gwasanaethau tâl gwasanaeth.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a. Sut oedd tenantiaid yn rhan o lunio neu adolygu gwasanaeth h.y. lefel y cyfranogiad/ymgynghoriad, y gefnogaeth a gynigir i denantiaid i gymryd rhan a pha mor gynhwysol oedd y dulliau o gymryd rhan
b. Sut mae'r gwasanaeth wedi'i gwella o ganlyniad i gyfranogiad tenantiaid
c. Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud/y bydd yn ei wneud - canlyniadau'r cyfranogiad

## 4. Cymunedau'n Cefnogi Cymunedau

Mae'r wobr hon yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau **grŵp neu brosiect a arweinir gan y gymuned** sydd wedi cefnogi grwpiau neu unigolion eraill yn eu cymuned. Gallai'r gefnogaeth hon gynnwys esiamplau fel: cynnal gweithgareddau cymunedol, darparu cyfleusterau lleol, prosiectau amgylcheddol/garddio, cefnogaeth llesiant ayyb. Os oes rhywbeth yn cael ei wneud gan y gymuned dros y gymuned, byddem wrth ein bodd yn clywed amdano!

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a. Y math o gefnogaeth a ddarperir
b. Sut mae anghenion y cymunedau/unigolion wedi cael eu diwallu
c. Yr effaith y mae'r gefnogaeth wedi'i chael ar unigolion/cymunedau
d. A ellir cynnal/addasu'r prosiectau ar gyfer y dyfodol

## 5. Tîm Tenantiaid y Flwyddyn

Mae'r wobr hon yn cydnabod **Tîm o Denantiaid** sy'n gweithio i sicrhau bod lleisiau tenantiaid yn cael eu clywed wrth lunio gwasanaethau tai neu ddylanwadu ar benderfyniadau eu landlord. Gallai'r tîm o denantiaid fod yn unrhyw gorff penodol o denantiaid yn gweithio gyda'i gilydd megis Panel, Pwyllgor, Fforwm, Grŵp ac ati. Gallai'r tîm tenantiaid fod yn gweithio'n annibynnol neu mewn partneriaeth â'u landlord.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Ymrwymiad y tîm
b) Y gwahaniaeth y mae gwaith y tîm yn ei wneud
c) Ystod y gwaith a wneir gan y tîm, gan gynnwys unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol

## 6. Cyfathrebu â Thenantiaid a Phreswylwyr

Mae'r wobr hon yn cydnabod pa mor effeithiol y mae **landlord cymdeithasol** yn cyfathrebu â'i denantiaid/defnyddwyr gwasanaeth. Gall hyn gynnwys ystod o ddulliau cyfathrebu fel fideo; cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, Facebook Live a chyswllt uniongyrchol 'yn bersonol' yn y gymuned ayyb.

Gallai hefyd gynnwys prosiect cyfathrebu penodol i godi ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o bwnc amserol, er enghraifft - tlodi tanwydd, lleithder a llwydni, gwybodaeth costau byw.

Dywedwch wrthym sut rydych chi'n cyfathrebu â'ch tenantiaid a pha wahaniaeth mae'n ei wneud, megis; codi ymwybyddiaeth o wasanaethau neu'r gefnogaeth rydych chi'n ei chynnig, meithrin perthnasoedd a dealltwriaeth neu bod yn atebol am berfformiad a chynlluniau eich sefydliad. Mae'r wobr hon yn cynnwys pob dull o gyfathrebu.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a. Priodoldeb y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir o ran amrywiaeth y tenantiaid e.e. iaith blaen/osgoi jargon wrth gyfathrebu.
b. Effeithiolrwydd y cyfathrebu e.e. adborth gan denantiaid/defnyddwyr gwasanaeth, dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol ac ati.
c. Unrhyw wersi a ddysgwyd

## 7. Rhaglen Cymorth/Cyngor i Breswylwyr

Rhoddir y wobr hon i **landlord cymdeithasol** sy'n buddsoddi mewn tenantiaid a chymunedau ac yn eu cefnogi. Rydym yn chwilio am raglenni cymorth/cyngor sydd wedi'u hen sefydlu sy'n helpu preswylwyr i oresgyn heriau a gwella eu bywydau a/neu wella cyfleoedd.

Dylai enwebiadau allu dangos ymagwedd effeithiol at gymorth/cyngor. Rydym yn chwilio am unrhyw beth o reoli arian a mynd i'r afael â dyled i gynhwysiant digidol; hybiau cynnes i addysg a chyflogadwyedd. Yr hyn yr ydym eisiau ei weld yw tystiolaeth o'r effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen wedi'i chael ar fywydau preswylwyr.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a. Tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol i denantiaid, preswylwyr, neu gymunedau
b. A oes modd cynnal/addasu'r cymorth ar gyfer y dyfodol
c. Sut mae'r cymorth/cyngor wedi cynnwys y rhai y mae'n eu gwasanaethu

## 8. NEWYDD Preswylydd/Tenant Ifanc y Flwyddyn

### (yn agored i bobl ifanc sy'n byw mewn tai cymdeithasol)

Mae wobr Preswylydd/Tenant Ifanc y Flwyddyn yn cydnabod y cyfraniad a wneir gan **berson ifanc** sydd wedi bod o fudd i eraill neu'r gymuned ehangach. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o bobl ifanc yn gwneud pethau gwych dros eu cymuned neu i helpu eraill, felly rydyn ni'n galw arnoch chi i enwebu person ifanc di-glod sy'n haeddu'r wobr hon.

Rhaid i'r enwebai fod:

- Yn denant/preswylydd tai cymdeithasol neu'n byw mewn tai cymdeithasol.
- O dan 25 oed ar ddyddiad yr enwebiad.
- Wedi cytuno i gael ei enwebu.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Amlinellwch sut maen nhw wedi gwneud gwahaniaeth i eraill neu eu cymuned.
b) Pa sgiliau, ymrwymiad ac egni y maent wedi'u dangos.
c) Unrhyw heriau personol neu rwystrau cymdeithasol y gallent fod wedi gorfod eu goresgyn wrth helpu eraill neu eu cymuned.

## a. Tenant y Flwyddyn

Rhoddir y wobr hon i **denant/preswylydd landlord cymdeithasol** sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol at Gyfranogiad Tenantiaid.

**Meini Prawf Asesu: beth i ddweud wrthym…**

a) Yr ymrwymiad a'r ymroddiad y maen nhw wedi'u dangos
b) Pa wahaniaeth y mae eu hymrwymiad wedi'i wneud i'r gymuned denantiaid a/neu'r grwpiau y maent wedi gweithio â nhw
c) Pa mor gynhwysol maen nhw wedi bod a sut maen nhw wedi ystyried anghenion eraill